

Y Gwir Anrhydeddus y Farwnes Heather Hallett DBE
Cadeirydd
Ymchwiliad COVID-19 y DU

01 Ebrill 2022

Annwyl Farwnes Hallett

Ymchwiliad cyhoeddus COVID-19 y DU: cylch gorchwyl drafft

Bu Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd Cymru yn ystyried y cylch gorchwyl drafft ar gyfer Ymchwiliad COVID-19 y DU yn ein cyfarfod ar 24 Mawrth 2022. Rydym yn cynnig y sylwadau a ganlyn:

- Bydd yr Ymchwiliad yn gyfle hanfodol i edrych yn fanwl ar barodrwydd y DU am y pandemig COVID-19 a'i ymateb iddo, ac i ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol. Gan fod llawer o'r materion sy'n ymwneud â'r materion hyn wedi'u datganoli, bydd yn bwysig sicrhau bod eich gwaith yn cynnwys ffocws digonol ar bob un o'r pedair gwlad yn annibynnol, yn ogystal ag edrych ar y darlun ehangach ledled y DU a sut y cydweithiodd y cenhedloedd. **Rydym yn awgrymu, er mwyn cyflawni hyn, y bydd angen i'r Ymchwiliad gael arbenigedd a chyngor mewn perthynas â threfniadau a chyd-destun cyfreithiol, cyd-destun polisi a'r cyd-destun llywodraethu penodol yng Nghymru ymhlith ei aelodau - neu gael mynediad at yr arbenigedd hwn mewn ffordd arall.**
- Rydym yn croesawu'n arbennig y ffocws yn y cylch gorchwyl drafft ar effaith y pandemig, a'r ymateb iddo, ar wahanol grwpiau o bobl, gan gynnwys y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein gwaith ni, a gwaith y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Bumed Senedd, wedi nodi gofalwyr di-dâl fel grŵp yr effeithiwyd arnynt yn arbennig, a bod yr effaith honno'n parhau. Mae hyn yn cynnwys pobl a allai fod wedi dod yn ofalwyr am y tro cyntaf yn ystod y pandemig, gan gynnwys o ganlyniad i ddileu neu leihau gwasanaethau gofal cymdeithasol neu wasanaethau iechyd. **Rydym yn awgrymu bod yr Ymchwiliad yn edrych yn benodol ar yr effaith ar ofalwyr di-dâl, gan gynnwys clywed yn uniongyrchol gan ofalwyr di-dâl am eu profiad bywyd..**
- Rydym hefyd yn croesawu bwriad yr Ymchwiliad i ystyried gwahaniaethau o ran profiadau pobl o'r pandemig a'r ymateb iddo, gan gynnwys gwahaniaethau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig a chategorïau cydraddoldeb. **Rydym yn awgrymu y dylid ystyried defnyddio dull**




gweithredu croestoriadol, sy'n ystyried effaith gronns y gwahaniaethau y gallai pobl sydd â nifer o nodweddion gwarchoddedig gwahanol fod wedi'u profi, ac yn ystyried gwahaniaethau o ran profiadau yn ymwneud â statws economaidd-gymdeithasol.

- Drwy gydol y pandemig, mae gwaith craffu seneddol wedi bod yn ddull allweddol o oruchwylio polisi, gwariant, deddfwriaeth, a gweithio rhynglywodraethol. **Awgrymwn efallai y bydd yr Ymchwiliad yn dymuno ystyried y gwaith a wnaed gan Senedd Cymru yn ystod y pandemig, gan gynnwys y dystiolaeth a gasglwyd ac adroddiadau a gyhoeddwyd gan bwyllgorau'r Senedd, a gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Ymchwil y Senedd fel y Llinell amser o ran y coronafeirws.**
- Mae'r pandemig, a'r ymateb iddo, wedi effeithio ar bobl a chymunedau ledled y DU, ac rydym yn cefnogi bod ymrwymiad i wrando ar brofiadau teuluoedd mewn profedigaeth ac eraill sydd wedi dioddef caledi neu golled wedi'i gynnwys yn y cylch gorchwyl drafft. Rydym hefyd yn croesawu eich ymrwymiad i ddarparu ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol i bobl rannu eu profiadau gyda chi. **Rydym yn awgrymu y dylai dull yr Ymchwiliad o gasglu tystiolaeth gynnwys gweithgarwch ffurfiol ac anffurfiol ledled y DU, gan gynnwys ar draws gwahanol rannau o Gymru. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod pobl yn gallu ymgysylltu â'r ymchwiliad, cyfrannu at ei waith, darparu tystiolaeth a rhannu eu profiadau yn Gymraeg neu Saesneg.**

Gobeithiwn y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol wrth i chi wneud eich cylch gorchwyl a'r dull o ymdrin â gwaith yr Ymchwiliad yn derfynol.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog, Llywodraeth Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.